OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2012 Rhif 1418 (Cy.174)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012

Gwnaed - - - -	*25 Mai 2012*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*30 Mai 2012*
Yn dod i rym - -	*21 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 336(1) a (2) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996(**1**) ac ar ôl ymgynghori â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn unol â pharagraff 24(1) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Diwygio) 2012 a deuant i rym ar 21 Mehefin 2012.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012

2.—(1) Mae Rheoliadau Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2012(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 13(4) (cais apêl), yn y testun Cymraeg—

(a) yn lle is-baragraff (c)(ii) rhodder—

"(ii) ysgol annibynnol, drwy gadarnhad ysgrifenedig bod y person sy'n gwneud yr apêl wedi hysbysu perchennog yr ysgol am fwriad y person i ofyn am enwi'r ysgol annibynnol yn y datganiad;"; a

(b) ar ôl is-baragraff (c)(ii) mewnosoder—

(**1**) 1996 p.56. Diwygiwyd adran 336(1) gan baragraffau 127, 133(a)(i) a 133(a)(ii) o Atodlen 3 i O.S. 2008/2833. Diwygiwyd adran 336(2) gan Atodlenni 8 a 9 i Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001, ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan O.S. 2008/2833 ac adran 7 o Fesur Addysg (Cymru) 2009. Diwygiwyd adran 569(4) gan adran 8 o Fesur Addysg (Cymru) 2009.

(**2**) 2007 p.15.

(**3**) O.S. 2012/322 (Cy.53).